



## Jona

Stori Jona yw un o'r straeon mwyaf poblogaidd yn yr Hen Destament. Galwodd Duw Jona i fynd i broffwydo i Ninefe (prifddinas Asyria) a galw arnynt i edifarhau. Roedd Jona yn anfodlon iawn ac fe ddihangodd i'r cyfeiriad arall. Fe achosodd Duw i storm godi ar y môr ac yn y diwedd fe wnaeth Jona gydnabod fod yn rhaid ei daflu dros ochr y llong. Caniataodd hyn i'r storm dawelu ac fe lyncwyd Jona gan bysgodyn mawr. Ym mol y pysgodyn, gweddiodd Jona ar Dduw am help. Fe chwydodd y pysgodyn Jona, ac aeth ymlaen i Ninefe ble galwodd ar y bobl i edifarhau. Maent yn edifarhau ac roedd Jona wedi ei dramgwyddo gan Dduw. Y tu allan i'r ddinas, eisteddodd i lawr a disgwyl i Dduw ddial ar y ddinas. Ni ddigwyddodd hyn am eu bod wedi edifarhau. Roedd Jona'n flin ac fe brotestiodd wrth Dduw. Achosodd Duw i blanhigyn dyfu a'i gysgodi rhag yr haul, ac yna fe laddodd y planhigyn. Roedd Jona wedi ypsetio unwaith eto. Mae'r llyfr yn gorffen gyda chwestiwn oddi wrth Dduw i Jona yn holi a oedd ef yn iawn i fod yn drugarog ai peidio.



### Pa mor hir wnaiff o gymryd?

**Amser darllen:** 8 munud  
**Yn brin o amser?** Darllenwch yn unig 1.1-4; 3.4-4.11



### Dosbarth

Proffwydoliaeth (fymryn yn wahanol)



### Unrhyw beth anodd?

Yr elfen anodd ynglŷn â'r llyfr hwn yw sut i'w ddarllen. Mae iddo wahanol nodweddion sy'n teimlo fel 'chwedl tylwyth teg' fel: storm wyrthiol; pysgodyn digon mawr i lyncu rhywun ond i'w gadw'n fyw; gwartheg sy'n edifarhau gyda sachliain a lludw; planhigyn lledrithiol sy'n tyfu a marw mewn noson. Ar yr un pryd mae gan y stori lawer o elfennau sy'n swnio'n wir, yn arbennig amharodrydd Jona i wneud yr hyn mae Duw yn ei ofyn a'i ddieter am nad oedd Duw wedi difetha pobl Ninefe.



### Dyfyniadau i ysbrydoli

Atebodd yntau hwy, "Hebrëwr wyf fi, ac yr wyf yn ofni'r Arglwydd, Duw'r nefoedd a wnaeth y môr a'r sychdir."  
(Jona 1.9)

<sup>5</sup>Caeodd y dyfroedd amdanaf, a'r dyfnder o'm cwmpas; clymodd y gwymon am fy mhen wrth wreiddiau'r mynyddoedd; <sup>6</sup>euthum i lawr i'r wlad y caeodd ei bolltau arnaf am byth. Eto, dygaist fy mywyd i fyny o'r pwll, O Arglwydd fy Nuw.  
(Jona 2.5-6)

<sup>10</sup>Dyweddodd Duw, "Yr wyt ti'n tosturio wrth blanhigyn na fuost yn llafurio gydag ef nac yn ei dyfu; mewn noson y daeth ac mewn noson y darfu. <sup>11</sup>Oni thosturiaf finnau wrth Ninefe, y ddinas fawr, lle mae mwy na chant ac ugain o filoedd o bobl sydd heb wybod y gwahaniaeth rhwng y llaw chwith a'r llaw dde, heb sôn am lu o anifeiliaid?"  
(Jona 4.10-11)



## Ynglŷn â'r Awdur

Does neb yn gwybod.

*Beth wyddom ni amdano?*

Dim.



## Ynglŷn â'r cyfnod

Y broblem yw na all neb hyd yn oed gytuno pryd yr ysgrifennwyd Jona. Mae rhai yn credu ei fod yn gynnar (tua'r wythfed ganrif Cyn Crist); eraill yn llawer diweddarach (yn y bumed ganrif Cyn Crist), felly wedi dychwelyd o'r gaethglud. Os yw'r dyddiad hwyr yn y bumed ganrif yn gywir (efallai nad yw'n gywir) y broblem ychwanegol yw bod Ninefe wedi ei dinistrio yn y seithfed ganrif Cyn Crist, mewn geiriau eraill, ddwy ganrif ynghynt. Byddai hyn yn ychwanegu tro arall i'r stori.

*Beth oedd pobl yn ei deimlo?*

Anodd dweud gan ei fod yn anodd penderfynu pryd y gosodwyd y llyfr neu ei ysgrifennu.



## Cadwch lygad am...

Beth ddwedodd Duw wrth Jona am ei ddweud a beth ddwedodd Jona mewn gwirionedd. Sawl eiliad o gomedi sy'n y llyfr.

Y cwestiynau dwfn am drugaredd a maddeuant o dan y stori ddifyr.



## Sut cafodd ei strwythuro?

1.1-17	Galwad Jona ac yntau'n dianc
2.1-10	Gweddi Jona o fol y pysgodyn
3.1-10	Neges amharod Jona am edifeirwch
4.1-11	Gwersi Jona am ddaioni Duw



## Pa fath o Lyfr ydy o?

Proffwydoliaeth gyda thro yn ei gynffon. Mae hon yn stori am broffwyd (ychydig yn debyg i'r hyn a geir yn 1 a 2 Brenhinoedd). Y tro yw bod Jona yn broffwyd echrydus – amharod, pwdlyd ac yn hawdd ei dramgwyddo. Mewn gwrthgyferbyniad mae'r bobl y mae'n cysylltu â nhw (does yr un ohonyn nhw'n Israeliaid) yn ymddwyn yn ddi-fai, o'r morwyr ar y llong i Tarsis, i'r gwartheg yn Ninefe. O'r herwydd mae'n codi nifer o gwestiynau i ni eu hystyried.



## Beth allai hyn ei olygu i mi?

Un o themâu Jona yw beth sy'n digwydd pan fyddwn yn anghytuno â Duw, yn arbennig y Duw sy'n drugarog ac nid ydym eisiau iddo fod felly. Ystyriwch pwy fydddech chi'n cael yn anodd i Dduw beidio â maddau iddo/iddi.



## Cwestiynau grŵp trafod

- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr roeddech chi'n arbennig o hoff ohono neu wnaeth eich ysbrydoli?
- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr nad oeddech yn ei hoffi neu oedd yn eich poeni?
- Beth oeddech *chi'n* ei gredu roedd y llyfr yn ei drafod?
- Mae Jona'n ymddangos yn bwdlyd o'r dechrau i'r diwedd. Ceisiwch ei amddiffyn a gweld os gwnewch chi lwyddo.
- Mae meddwl am siarad gyda phobl Ninefe - heb sôn am faddau iddyn nhw - mae'n amlwg yn troi stumog Jona. Am bwy fydddech chi'n teimlo'n debyg pe bai Duw yn gofyn i chi fynd atyn nhw gyda neges?
- Mae gwir galon neges Jona ym mhennod 4 a'r sgwrs rhwng Duw a Jona am drugaredd Duw. Mae'r llyfr cyfan yn gorffen gyda chwestiwn. Ydych chi'n dychmygu fod Jona wedi cytuno â Duw ai peidio ar y diwedd?
- Wnaethoch chi ddarllen unrhyw beth yn y llyfr wnaeth eich cyffwrdd, ehangu eich ffydd neu wneud i chi feddwl yn ddyfnach am eich bywyd a sut rydych yn ei fyw?



Gallwch drydar lluniau, storïau neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod [#clwblyfrauibeibl](#) a tag [@cymybeibl](#).

**Dod** â'r Beibl yn **fyw**

**B** Cymdeithas  
y Beibl